Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

Ysgol Carreg Emlyn

Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY

Tel: Clocaenog 01824 750636 Cyffylliog 01824 710274

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

www.ysgolcarregemlyn.cymru

@carregemlyn

Newyddion 18/12/17 News

Seren yr Wythnos

Llongyfarchiadau i Aron, Cian, Lois, Gruff ac Ela am fod yn Sêr yr Wythnos. Da iawn chi!

Cyngerdd Offerynol Nadolig
Instrumental Concert

Bydd cyfle i'r plant sy'n cael gwersi offerynnol berfformio caneuon Nadoligaidd fore Gwener. Wnewch chi atgoffa eich plant i ddod a'u hofferynnau gyda nhw i'r ysgol. Gobeithiwn gysylltu a Safle Cyffylliog dros y we hefyd fel eu bod nhw yn cael y gyngerdd hefyd. *There will be a chance for the children that have instrumental lessons to perform Christmas songs next Friday morning. Please remind your children to bring in their instruments to school. We hope to contact Cyffylliog Site over the internet so that the children there can have the concert as well.*

Dyddiadau i'w Cofio
Dates for your Diary

19/12/17 Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol / *School's Christmas Service* – Capel Cyffylliog *Chapel* 6.30pm

21/12/17 Dathlu Nadolig yn yr ysgol – cinio Nadolig, ymweliad Sion Corn a pharti. Plant i wisgo dillad parti Nadoligaidd! *Celebrating Christmas in school – Christmas lunch, visit from Santa and party. Children to wear Christmassy Party clothes!*

22/12/17 Gwasanaeth Carolau Eglwys Cyffylliog *Church Carol Service* 6pm.

22/12/17 Cau dros wyliau'r Nadolig / *Close for Christmas holiday*

8/1/18 Diwrnod Hyfforddiant Staff / *Staff Training Day*

9/1/18 Plant yn ôl / *Children start back in school*

16 & 23 & 30/1/18 Clwb yr Urdd CA2 / KS2 Urdd Club

29-31/1/18 Trip Bl 5 a 6 i Gaerdydd / *Yr 5 & 6 visit to Cardiff*

6/2/18 Clwb yr Urdd CA2 / KS2 Urdd Club

9/2/18 Ysgol yn cau dros hanner tymor / *School closes for half term.*

19/2/18 Ysgol yn ail agor / School open

20/2/18 Clwb yr Urdd CA2 / KS2 Urdd Club

24/2/18 Eisteddfod yr Urdd Cylch Rhuthun / *Ruthin Area Urdd Eisteddfod* Ysgol Brynhyfryd.

17/3/18 Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych / *Denbighshire Urdd Eisteddfod* – Rhuthun

23/3/18 Cau dros y Pasg / *Close for Easter Holiday.*

Clwb 100 Club

Tachwedd / *November*

1) £28 Gwennan a Lee Boycott (58)
2) £21 Lyla Petrie (13)
3) £14 Berwyn Evans (4)

Rhagfyr / *December*

1) £28 Meirion & Sharon Williams (14)
2) £21 Gareth & Sioned Malethan (26)
3) £14 Dylan Jones (46)

Llongyfarchiadau!

Cysylltu gyda Texas
Talking to Texas!

Cawsom amser cyffrous iawn bnawn Mercher diwethaf pan gysylltodd Gattis Elementary School o Austin, Texas gyda ni. Roeddynt yn astudio Nadolig o gwmpas y byd ac am gael gwybod sut oeddem ni yn dathlu'r Nadolig yng Nghymru. Roedd hi'n 2.50yp yma a 8.50yb yno! Roeddyn nhw am wybod os oedd gennym frenhinoedd a brenhinesau yma ac os oedd unrhyw un yn byw mewn castell!! Dywedodd y plant fod llawer o ffermydd ganddyn nhw hefyd yn Nhexas a Sion Corn yn cyrraedd yno yn ogystal. Fe wnaeth plant Carreg Emlyn ganu un o'n caneuon Nadolig iddyn nhw ac roedd ein ffrindiau yn America yn meddwl eu bod nhw yn wych! *We had a very exciting afternoon on Wednesday when we were contacted via the internet by Gattis Elementary School in Austin, Texas. They are studying Christmas around the world and wanted to know more about how we celebrate in Wales. It was 2.50pm here and 8.50am over there. The children wanted to know if we had kings and queens here and if anyone lived in a castle! They told us that they also had farms in their area and that Santa came to visit them as well on Christmas Eve. Our school sang one of our Christmas songs to our friends in America and they thought that the singing was wonderful!*

Hwyl yn yr Eira / *Fun in the Snow*

Llysgenhadon Chwaraeon Efydd
Bronze Sports Ambassadors

Llongyfarchiadau i Pippa ac Elain am gael eu dewis yn Lysgenhadon Chwaraeon Efydd yr ysgol. Byddan nhw yn dechrau eu swydd o ddifri yn y flwyddyn newydd yn hybu chwaraeon a ffitrwydd yn yr ysgol. *Congratulations to Elain and Pippa for being chosen as the schools Bronze Sports Ambassadors for the year. Their work will be to promote sport and games within school.*

Sialens Rhigwm
Nursery Rhyme Challenge

Mae'r dosbarth Derbyn wedi bod yn brysur yn dysgu rhigymau ac wedi ennill tystysgrifau – ardderchog! *Reception Class children have been learning Welsh nursery rhymes and have all won a certificate – excellent!*

Gwobr Ysgolion Iach

Rydym yn hapus iawn i gael cyhoeddi ein bod wedi llwyddo i gael Gwobr Ansawdd Genedlaethol Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru. Rydw i wedi atodi yr adroddiad llawn yn yr ebost gyda'r Cylchlythyr yma i chi gyd ei ddarllen. Byddwn yn trefnu noson i ddathlu ein llwyddiant yn y flwyddyn newydd pryd y byddwn yn derbyn ein plac Gwobr Ansawdd. Dyma oedd yr adborth i'r disgyblion.

Adborth i ddisgyblion

Annwyl ddisgyblion Ysgol Carreg Emlyn,
Diolch yn fawr iawn am wneud ein hymweliad yn un mor bleserus. Roedd yn grêt i gael siawns i siarad gyda chymaint ohonoch ac roedd pawb yn garedig a chwrtais.
Rhaid rhoi diolch arbennig i'r Criw Clên ac i'r disgyblion a'n harweiniodd ni ar ein taith o amgylch yr ysgol ar y ddau safle ac a gyflwynodd cymaint o wybodaeth tra ar y teithiau. Roedd eich cyflwyniadau yn arbennig gyda CA2 yn dangos eu sgiliau TG Ch yn ystod eu cyflwyniad nhw a disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos eu sgiliau cyflwyno. Cawsom wybodaeth arbennig gennych yn y ddau gyflwyniad. Mae eich gwaith yn arbennig o dda ac roedd yn amlwg trwy'r ymweliad eich bod yn mwynhau eich amser yn yr ysgol yn fawr iawn ac yn frwdfrydig am, ac yn deall yn hynod o dda, gwaith yr ysgol iach. Roedd hyn i gyd yn gymorth i ni wrth asesu eich ysgol ar gyfer y Wobr Ansawdd.
Mae'n wych i weld y gall pob disgybl gael llais ac mae gwaith y cyngor ysgol, y cyngor eco, y llysgenhadon chwaraeon, y llysgenhadon gwych, swyddogion diogelwch ar y ffordd, yr E -Dim, swyddogion y siarter iaith y Criw Clên a'r Ffrindiau Bach a Mawr yn arbennig o dda. Roedd yn amlwg trwy eich gwaith caled a cydwybodol eich bod yn gwneud eich ysgol yn le gwych, diogel a hapus.

Un o'r pethau a sylwais fwyaf yn eich ysgol oedd bod pawb yn ymddangos mor hapus a cymaint o barch a gofal a ddangosir tuag at eich gilydd a tuag at yr amgylchedd. Roedd pawb yn ymddwyn yn dda a pharchus, yn hynod o gwrtais ac yn garedig i'w gilydd.

Cawsom y cyfle i rannu cinio gyda chi ac roedd pawb yn ymddwyn yn dda, roeddech unwaith eto yn hynod o gwrtais ac roedd y cinio a'r sgwrs yn hyfryd. Da oedd eich gweld yn sicrhau bod y byrddau yn lân cyn cinio a bod pawb mor dda am ymolchi eu dwylo. Mae'n wych i weld y gall pob disgybl gael llais ac eich bod wedi medru gwneud penderfyniadau am agweddau sy'n bwysig i chi. Cofiwch, rydych chi yn helpu i wneud eich ysgol yn le gwych – rhywle sy'n ddiogel, hapus, prysur a lle gallwch ddysgu sut i fod yn iach wrth dyfu i fyny.

Daliwch ati gyda'r gwaith da a phob lwc i'r dyfodol.

Healthy Schools Award

We are happy to announce that the school has been awarded the Welsh National Healthy Schools Scheme National Quality Award. I have attached the full report with the newsletter email so that you can all read it. We will be organizing an event in the new year to celebrate our achievement and to receive a National Quality Award plaque. This is the feedback given to the children.

Feedback to pupils

Dear pupils of Ysgol Carreg Emlyn, thank you very much for making our visit so enjoyable. It was great to get a chance to speak with so many of you and everyone was kind and courteous.
Special thanks must be given to the Criw Clen and the pupils who led us on our tour of the school at both sites and shared so much information while we were on the tour. Your presentations were particularly good with KS2 demonstrating their ICT skills during their presentation and Foundation Phase pupils demonstrate their presentation skills. We received excellent information from you in the two presentations. Your work is very good, and it was evident throughout the visit that you enjoy your time in school greatly and are enthusiastic about and, understand extremely well, the work of the healthy school. All of which helped us in assessing your school for the National Quality Award.
It was very good to see that all pupils can have a voice and the work of the school council, the eco-council, sports ambassadors, the super ambassadors, road safety officers, E-Team, the language Charter group, the Criw Clên and Ffrindiau Bach a Mawr is particularly good. It was obvious to us, that through your hard and conscientious work you are making your school a great place, safe and happy.
One of the things that I noticed most in your school was that everyone seemed so happy with so much respect and care shown towards each other and towards the environment. Everyone was well behaved and respectful, extremely polite and kind to each other.
We had the opportunity to share lunch with you and everyone was well behaved and, once again, everyone was extremely polite, and the lunch and the conversation was pleasant. It was good to see that you ensured that the tables were clean before lunch and everyone was so good about washing their hands. It's great to see that all pupils can have a voice and that you have been able to make decisions about aspects that are important to you. Remember, you will help to make your school a wonderful place – somewhere that is safe, happy, busy and where you can learn how to be healthy while growing up.
Keep up the good work and good luck for the future.

Ysgol Carreg Emlyn

Gwasanaeth Nadolig

Christmas Service

Nos Fawrth Rhagfyr 19eg

Tuesday December 19th

Capel Cyffylliog Chapel

6.30pm

Croeso i Bawb / *Everyone Welcome*

Bydd casgliad tuag at elusennau Cancr

There will be a collection towards Cancer charities.

Plant (yn cynnwys meithrin) yn eu gwisg ysgol os gwelwch yn dda ac i gyrraedd erbyn 6.30pm.

Children (including nursery) in school uniform please and to arrive for 6.30pm start.